# Ymgynghoriad ar Orchymyn drafft (Cynrychiolaeth y Bobl) Senedd Cymru

Electoral Reform Society Cymru

**Chwefror 2025**

### C1 - A yw'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Gorchymyn drafft yn cynrychioli'n gywir y gofynion ar gyfer cynnal etholiad llwyddiannus o dan system etholiadol newydd y Senedd?

Nac ydyn

Er ei bod yn ymddangos bod y gweithdrefnau a amlinellir yn y Gorchymyn drafft yn cynrychioli'n gywir y gofynion technegol sy'n ofynnol ar gyfer cynnal etholiad o dan system etholiadol newydd y Senedd, mae gennym amheuon sylweddol sy'n effeithio ar ein hasesiad ynghylch a fydd hyn yn arwain at etholiad gwirioneddol lwyddiannus.

Mae ein prif bryder yn ymwneud â'r system bleidleisio newydd, sy'n mynd i fod yn tynnu dewis oddi wrth bleidleiswyr a'i roi yn nwylo pleidiau gwleidyddol. Gallai'r newid hwn danseilio ymgysylltiad a hyder pleidleiswyr yn anfwriadol, gan ei fod yn cyfyngu ar allu unigolion i fynegi eu cefnogaeth i ymgeiswyr penodol dros restrau plaid.

Yn ogystal â hyn, mae ehangder y newidiadau a fydd yn digwydd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026 yn golygu bod angen ymgyrch gyfathrebu gadarn a chynhwysfawr i sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y system bleidleisio newydd a'i goblygiadau yn llawn. Heb ymdrech o'r fath, mae perygl gwirioneddol y gallai dryswch a gwybodaeth gamarweiniol erydu ffydd y cyhoedd yn y broses etholiadol ac yn y Senedd ei hun. Felly, er bod y gorchymyn drafft yn nodi gweithdrefnau sy'n bodloni'r gofynion ffurfiol ar gyfer gweinyddu etholiadol, bydd pa mor llwyddiannus fydd yr etholiad yn dibynnu ar fynd i'r afael â'r materion hyn.

### C2(b) – A ydych yn cytuno â'r egwyddor o alinio uchafswm gwariant etholiad ymgeiswyr unigol â'r uchafswm ar gyfer gwariant plaid?

Ni ellir ateb y cwestiwn hwn yn iawn heb fod system ar gyfer ariannu pleidiau wedi'i chwblhau. Wedi dweud hynny, er ein bod yn deall y rhesymeg y tu ôl i alinio'r uchafswm gwariant ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau, mae gennym bryderon ynghylch tegwch.

Yn dibynnu ar y system a ddewisir, gallai'r aliniad hwn osod ymgeiswyr annibynnol dan anfantais, gan nad oes ganddynt yr adnoddau canolog sydd gan bleidiau gwleidyddol. Gallai ymgeiswyr annibynnol gael eu heffeithio'n arbennig os yw'r system a ddewisir yn cyfyngu ar gyllido ar sail nifer yr ymgeiswyr y mae plaid yn eu gosod ar eu rhestr mewn etholaeth, yn hytrach na nifer yr etholaethau y maent yn sefyll ynddynt. O'r herwydd, gallai system o'r fath gymell pleidiau gwleidyddol

mwy i lenwi eu rhestrau er mwyn cynyddu eu terfyn gwariant, rhywbeth na fyddai ar gael i ymgeiswyr unigol.

**C5 - A yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r gofynion newydd ar gyfer datganiad o aelodaeth plaid yn glir o ran yr hyn sy'n ofynnol gan ymgeiswyr?**
Ydyn

Mae'n amlwg o'r gorchymyn y bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddatgan a ydynt wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol yn y 12 mis blaenorol, ac mae hyn yn glir ar y ffurflen berthnasol. Rydym yn cefnogi'r gofyniad gan y bydd yn gwella tryloywder i bleidleiswyr. Mae'r system hon eisoes ar waith ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru, a chredwn y byddai ei chyflwyno ar gyfer y Senedd wneud y broses yn haws ei deall i ymgeiswyr ac yn hylaw i swyddogion etholiad.

**C6 - A ydych yn cytuno â'r darpariaethau newydd yn Rheol 37 o Atodlen 5 ynghylch yr offer a ddarperir mewn gorsafoedd pleidleisio i gynorthwyo pleidleiswyr anabl, sy'n unol â'r dull a fabwysiadwyd yn dilyn diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Etholiadau 2022?**
Rydym yn croesawu'r darpariaethau newydd sy'n ceisio cynorthwyo pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol mewn gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, credwn fod lle i fynd ymhellach yn hyn o beth. Mae ymgyrchwyr anabledd a rhanddeiliaid eraill wedi tynnu sylw yn y gorffennol at natur ad hoc offer hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio, lle mae rhai gorsafoedd yn cynnig offer gwell nag eraill.

Dylai pobl ag anableddau allu pleidleisio'n annibynnol cymaint â phosibl. Fodd bynnag, os nad oes offer digonol ar gael ym mhob gorsaf bleidleisio, ni fydd hyn yn bosibl. Mae RNIB wedi cynnal ymchwil i allu pobl ddall i bleidleisio'n annibynnol, a chanfod bod llai nag un o bob pump o bleidleiswyr dall yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, dangosodd treialon, pan gyflwynwyd cyfarpar cyffyrddol a sain, bod 93% o bleidleiswyr dall yn gallu pleidleisio'n annibynnol. Rydym yn croesawu'r cynlluniau peilot sydd ar waith ar hyn o bryd yn y maes hwn, a hoffem weld canlyniadau'r rhain, ynghyd â mewnbwn gan randdeiliaid allweddol eraill, yn cael eu bwydo i is-ddeddfwriaeth.

**C7 - A ydych yn ystyried bod cynnwys a fformat y ffurflenni, yn ogystal â'r system rifo newydd, yn bodloni anghenion defnyddwyr?**
Nac ydyn

Yn ogystal â'r gwahaniaeth hwn, mae'r darn cyntaf o gyngor (yn ymwneud â mynd at y ddesg wrth fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio) wedi'i hepgor o'r ffurflen newydd. Teimlwn fod yr awgrymiadau gweledol hyn yn ddefnyddiol yn ychwanegol i'r testun ysgrifenedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried ehangu'r hawl i bleidleisio i bobl ifanc nad ydynt erioed wedi bwrw pleidlais o'r blaen, ac a allai fod yn nerfus ynghylch gwybod beth i'w wneud.

Nodwedd arall yr ymddengys ei bod wedi'i hepgor o'r ffurflenni newydd yw'r defnydd o flychau gwybodaeth mewn print trwm sy'n cyfeirio pleidleiswyr at gymorth ychwanegol. Mae hyn i'w weld yn achos pleidleisio trwy'r post a chardiau pleidleisio megis ffurflen CC2 yng ngorchymyn diwygiedig 2016.

Er bod y ffurflenni'n cynnwys testun ynghylch cael cymorth, bydd cyflwyno'r wybodaeth hon mewn print trwm a chlir yn ei gwneud hi'n haws i bleidleiswyr ddod o hyd i'r wybodaeth honno.

Ynghyd â'r pwyntiau hyn, o ystyried y newidiadau sy'n digwydd ar gyfer etholiad 2026, bydd angen cynnal ymgyrch gyfathrebu gref ynghyd â'r ffurflenni newydd. Bydd hyn yn hanfodol fel bod yr etholwyr yn gallu deall y system newydd ac wedyn eu papur pleidleisio.

**C10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw’n benodol, gallwch ddefnyddio’r gofod hwn i’w hamlinellu:**

O ystyried y newidiadau enfawr sydd wedi digwydd o ran deddfwriaeth etholiadol yng Nghymru ers 2017, rydym yn croesawu’r symudiad i gydgrynhoi’r holl reolau sy’n llywodraethu etholiadau’r Senedd yn y gorchymyn hwn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rheolau etholiadol yn fwy tryloyw ac yn haws eu dilyn i’r rhai sy’n eu defnyddio.

Fodd bynnag, oherwydd maint y newidiadau a amlinellir yn y gorchymyn, mae’n hanfodol eu bod yn cael eu cyflwyno â strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr a chlir ymhell cyn etholiad 2026. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod ymgeiswyr ac, yn bwysicach fyth, yr etholwyr yn deall y broses newydd ar gyfer ethol Aelodau’r Senedd yn llawn. Yn ogystal, dylai unrhyw newidiadau a wneir i’r gorchymyn ar ôl yr ymgynghoriad gael eu cyhoeddi mewn modd amserol, gan ganiatáu digon o amser i lunio canllawiau priodol cyn etholiadau 2026, sydd i’w cynnal ymhen 15 mis.